# Gwaelod y Garth

## Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**28.03.25**




## Gair gan y Pennaeth ~ *Headteacher's Greeting*

Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 5 wythnos i'w chofio ar daith preswyl yn Maes y Fron, Bannau Brycheiniog, yr wythnos hon. Cafwyd profiadau newydd mewn amgylchedd gwbl hyfryd, a hynny yn yr heulwen braf. Rydym mor falch o bob un am fentro ac am herio'u hunain. Diolch o galon i'r staff am eu gwaith clodwiw. Mwynhewch y lluniau o'r hwyl a'r profiadau isod.

Hyfryd iawn oedd gweld nifer o'r plant yn dewis cerdded neu seiclo i'r ysgol yr wythnos hon yn ystod pythefnos **Stroliwch a Rholiwch**. Gydag wythnos arall o'r her yn parhau, all pob plentyn gerdded neu seiclo *un diwrnod yn ychwanegol* i'w harfer wythnos nesa? Allwch chi gerdded neu seiclo *pob dydd* am wythnos? Mae gwobrau arbennig iawn i'w hennill – **amdani**!

Braf oedd gweld cymaint yn cefnogi'r **Gymdeithas Epilepsi** trwy wisgo **porffor** i'r ysgol Dydd Mawrth. Da yw gallu cyhoeddi y casglwyd **£104.50**. Diolch am bob cefnogaeth.
**Diolch** hefyd i'r **Dreigiau Doeth** am gyflwyno rhagor o Gemau Buarth i bawb heddiw. Mae'r **Dreigiau Doeth** yn ein harwain tuag at **Wobr Aur y Siarter Iaith** a gyda ychydig dros wythnos i fynd, mae'r cyffro'n fawr! Diolch, a phob lwc, **Dreigiau**!

Cofiwch am ein cyfarfodydd **Noson Rhieni** nos Fawrth a Mercher wythnos nesa. Dyma gyfle pwysig i drafod eich plant gydag athrawon a disgwyliwn i **bob** teulu fynychu er mwyn ein galluogi i gydweithio'n agos er lles pob un plentyn.

Gair bach sydyn am ein **Gwefan Newydd** – sydd bellach yn fyw! Diolch i Mrs Davies am ei gwaith yn ei baratoi www.gwaelodygarth.co.uk/. Cyn cloi, hoffwn ddymuno **Sul y Mamau Hapus** iawn i bob mam yn ein plith – mwynhewch! 💜💚💙❤️

✲✲✲✲✲✲✲

Our Year 5/6 pupils had a week to remember on a residential trip to Call of the Wild this week. Amazing experiences in a stunning environment and beautiful sunshine. We are so proud of each one for being adventurous and for challenging themselves. Diolch to the staff for their fantastic support. There are some pictures of the fun and experiences for you to enjoy below.

It was good to see many children choosing to walk or cycle to school this week during the **Sustrans Big Walk and Wheel** fortnight. With another week of the challenge still to go, can all our children walk or cycle *one additional day* next week? Can you walk or cycle *every day* for a week? There are very special prizes to be won – **amdani**!

It was great to see so many supporting the **Epilepsy Society** by wearing **purple** to school on Tuesday. We are pleased to announce that was collected **£104.50**. Diolch for all support.

**Diolch** also to the **Dreigiau Doeth** for introducing us to more Yard Games today. The **Dreigiau Doeth** are leading us towards the **Golden Language Charter Award** and with just over a week to go, the excitement is high! Diolch, a phob lwc, **Dreigiau**!

Our **Parents' Evenings** take place on Tuesday and Wednesday next week. This is an important opportunity to discuss your children with teachers and we expect **all** families to attend to enable us to work closely together for the benefit of each and every child.

A quick word about our **New Website** – which is now live! Diolch to Mrs Davies for her hard work preparing this: www.gwaelodygarth.co.uk/. Before closing, we wish all mothers in our community a special day on Sunday - **Sul y Mamau Hapus** 💜💚💙❤️

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**01.04.25 & 02.04.25**
Nosweithiau Rhieni
*Parents Evenings*

**24.03.25 – 04.04.25**
Strolio a Rolio **Sustrans**
*Big Walk and Wheel*

**31.03.25**
Gwisgo pinc i gofio Amelia - diolch am bob gyfraniad.
*Wear pink to remember Amelia - Diolch for your donations*

**04.04.25 @ 9.30am**
Gwasanaeth Dosbarth 2C
2C Class Assembly

**11.04.25 Gwener / Friday**
Diwrnod ola'r tymor
Last day of term



Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.
*Our live calendar is available to download on our school website's homepage.*

**Dyddiadau Bws Beics Tymor y Gwanwyn**
***Spring Term Bus Bike Days***

4.4.25






Fel ysgol, byddwn yn ymuno â her **Stroliwch a Rholiwch** *Sustrans* eto eleni. Cynlluniwch ymlaen llaw NAWR – faint ohonoch all deithio i'r ysgol ar feic neu sgwter neu yn cerdded dros y pythefnos rhwng Mawrth 24 ac Ebrill 4? Helpwch ni i ennill gwobrau arbennig i'r ysgol!

https://d352t1ilhokup5.cloudfront.net/cms/resources/cy-GB/Sustrans-BWAW-2025-Welsh-InfoSheet.pdf

As a school, we will be joining the *Sustrans* Big Walk and Wheel challenge again this year. Plan ahead NOW – how many of you can travel to school by bike or scooter or walking over the two weeks between March 24 and April 4? Help us win amazing prizes for the school!
https://d352t1ilhokup5.cloudfront.net/cms/resources/en-GB/Sustrans-BWAW-2025-InfoSheet.pdf




**C.Rh.A / P.T.A:**
Cofiwch am…. Don't forget….

**09/04/25:** Helfa Wy Pasg / Easter egg hunt
**22/05/25:** Diwrnod ben i waered / Upside down day
**27/06/25:** Ffair Haf / Summer Fayre

Diolch i'r G.Rh.A am eich gwaith caled!
A big thanks to our fantastic P.T.A.!

## Clybiau Allgyrsiol

Ni fyddwn yn cynnal Clybiau allgyrsiol Celfyddydau Mynegiannol na Chlwb Chwaraeon (gan fod Nosweithiau Rhieni) na chwaith yr wythnos ganlynol, sef wythnos ola'r tymor. Bydd y clybiau yn ail-gychwyn ar ail wythnos y tymor, sef yr wythnos sy'n cychwyn 5ed o Fai.

## Extra-Curricular Clubs

We will not be running the Expressive Arts Club nor Sports Club next week (as there are Parents' Evenings) nor the following, which is the last week of the term. The clubs will resume on the second week of the Summer Term, which is the week beginning May 5th.

## Diwrnod Cofio am Amelia - 31.3.25

Ar Ddydd Llun, 31.3.25 byddwn yn cynnal diwrnod er cof am Amelia Griffiths, disgybl, ffrind, chwaer a merch anhygoel a fu farw yn 2022. Ar y diwrnod yma, gofynnwn yn garedig i'r disgyblion wisgo pinc, hoff liw Amelia, i'r ysgol. Byddwn yn cynnal trafodaethau yn ystod y dydd i gofio amdani. Er mwyn cefnogi'r diwrnod gwerthfawrogwn unrhyw gyfraniad tuag at gefnogi elusen **'Heart Heroes'.** Mae hwn yn elusen sydd yn agos iawn at galon y teulu. Croeso i chi ddod ag unrhyw gyfraniad i'r ysgol ar y dydd.

Diolch am bob cefnogaeth.

## Remembering Amelia - 31.3.25

On Monday, 31.3.25 we will remember Amelia Griffiths, an dear pupil, friend, sister and daughter who died in 2022. On this day, we kindly ask our pupils to come to school wearing pink, Amelia's favourite colour. We will hold activities in her memory during the day.
To support the day, we would appreciate contributions towards the '**Heart Heroes**' charity, a charity that's very close to the family's heart. Please bring any contributions to school on the day.

Thank you for your support.

Am brofiad i'w gofio i Flwyddyn 5- dringo, ceunentio, cynnau tân, datrys problemau, mynydda. Da iawn chi bob un! Diolch o galon i'r staff am bob cefnogaeth.

What an experience to remember for Year 5- climbing, gorge walking, lighting fires, problem solving, mountaineering. Well done everyone! A big thank you to the staff for all the support and planning.











## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week







## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week